## COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 13 GORFFENNAF 2022 DYDD MERCHER, 13 GORFFENNAF 2022**

**REPORT OF:** **SWYDDOG CYMORTH DEMOCRATAIDD A PHWYLLGORAU**

---

PRESENT:

**Arweinydd/**
**Aelod Gweithrediaeth – Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad**
Cynghorydd S. Thomas

**Dirprwy Arweinydd/**
**Aelod Gweithrediaeth – Lle ac Amgylchedd**
Cynghorydd H. Cunningham

**Aelod Gweithrediaeth – Lle ac Adfywio**
Cynghorydd J.C. Morgan

**Aelod Gweithrediaeth – Pobl ac Addysg**
Cynghorydd S. Edmunds

**Aelod Gweithrediaeth – Pobl a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Cynghorydd H. Trollope

WITH:

Prif Weithredwr Interim
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Pennaeth Adfywio
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwella Ysgolion, Cynhwysiant ac Addysg
Swyddog y Wasg

### PENDERFYNIADAU DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

| EI TEM | PWNC | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br>. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL</u>**<br><br>Cynigiwyd ac eiliwyd fod cyfarfodydd yn dechrau am 10.00 a.m. yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny. | |
| | **<u>COFNODION</u>** | |
| **No. 5** | **<u>PWYLLGOR GWAITH</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod o’r Pwyllgor Gweithrediaeth a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau’r cofnodion. | |
| | **<u>MATERION CYFFREDINOL</u>** | |
| **No. 6** | **<u>CYNADLEDDAU, CYRSIAU, GWAHODDIADAU A DIGWYDDIADAU</u>**<br><br>**<u>CYNADLEDDAU, CYRSIAU, DIGWYDDIADAU A GWAHODDIADAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i’r dilynol:-<br><br><u>Sefydlu Archddiacon nesaf Cymoedd Gwent a Chyfarwyddwr Cenhadaeth yr Esgobaeth – Dydd Sul 19 Mehefin 2022.</u><br><br>PENDERFYNWYD cymeradwyo i’r Cynghorydd D. Wilkins, Dirprwy Aelod Llywyddol fynychu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Diwrnod Lluoedd Arfog 2022<br><br>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynghorydd D. Bevan, Hyrwyddwyr Lluoedd Arfog i fynychu. | |
| **No. 7** | **CYFLE GWEITHLU AR GYFER 'BENTHYCIAD PONTIO' AR GYFER CYMORTH GYDA CHOST GYNYDDOL DEFNYDDIO CAR AR GYFER DIBENION GWAITH**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chynnig cyfle i weithwyr cyflogedig sy'n defnyddio eu car ar gyfer dibenion gwaith i wneud cais am fenthyciad 'pontio' o £200 sy'n llwyr ad-daladwy. Byddid yn adolygu'r sefyllfa ym mis Mawrth 2023 neu yn gynharach pe byddai cost tanwydd yn gostwng, y gweithredwyd y dyfarniad cyflog neu os oes unrhyw newid arall. Byddai'r benthyciad yn ad-daladwy mewn rhandaliadau misol dros 12 mis. Byddid angen ad-dalu'r benthyciad 'pontio' yn llawn ar unwaith pe byddai gweithiwr yn terfynu eu cyflogaeth gyda'r Awdurdod.<br><br>Byddai trafodaethau yn parhau yng nghyswllt posibilrwydd adolygiad dros dro ar gyfraddau milltiroedd gyda'r undebau llafur.<br><br>Caiff y cyfle am fenthyciad ei hysbysebu drwy reolwyr llinell a Chylchlythyr y Prif Weithredwr a dim ond i'r rhai a hawliodd dâl milltiroedd dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn defnyddio eu car ar gyfer dibenion gwaith y byddai ar gael. Byddai angen i'r gweithiwr lofnodi datganiad ac ymrwymiad i ad-dalu'r benthyciad yn y dyfodol (Opsiwn 1). | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | |
| **No. 8** | **CYNLLUN BUDDSODDI LLEOL A CHYNLLUN BUDDSODDIAD RHANBARTHOL Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Adfywio a Datblygu.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytunwyd symud ymlaen gyda phroses y Gronfa Ffyniant Gyffredin Ranbarthol (Opsiwn 1) fel sy'n dilyn:<br><br>1. Ceisio cytundeb i Gyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf weithredu fel Awdurdod Lleol Arweiniol Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac iddynt gyflwyno Cynllun Buddsoddi y Brifddinas-Ranbarth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig erbyn y dyddiad cau o 1 Awst 2022.<br><br>2. Caniatáu awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Adfywio a Datblygu | |

| | | |
|---|---|---|
| | (mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd ac Aelod Gweithrediaeth Lle ac Adfywio, Prif Weithredwr, Prif Swyddog Adnoddau/Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro/Cydymffurfiaeth Cyfreithiol) i gymryd y camau gweithredu gofynnol i gadw at y dyddiadau cau a gofynion ar gyfer cyflwyno.<br><br>3. Cytuno ar nifer o ymyriadau i sicrhau bod cyllid 2022/23 yn cael ei wario yn amserol, yn cynnwys peth recriwtio mewn-risg. Byddai hyn yn risg ariannol i'r cyngor yn y lle cyntaf. Gellid ymestyn contractau ymhellach unwaith y derbyniwyd cadarnhad am gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.<br><br>4. Cytunwyd i ddefnyddio rhan o ffi gweinyddu/rheoli 4% y Gronfa Ffyniant Gyffredin (£1,120,000 dros dair blynedd) i benodi tîm prosiect bach i reoli a gweinyddu cyflenwi'r rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG</u>** | |
| **No. 9** | **<u>MAES LLAFUR HAWLIAU, GWERTHOEDD, MOESEG</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Gweithrediaeth yn mabwysiadu'r maes llafur a gytunwyd ar gyfer ei ddefnyddio mewn ysgolion cynradd o fis Medi 2002 ac ar gyfer yr ysgolion pob oed/uwchradd hynny fydd yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru o 2023 fel y nodir yn yr adroddiad (Opsiwn 1). | |
| **No. 10** | **<u>GWERTHU TIR, ASHVALE, TREDEGAR</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Adfywio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth sy'n cynnwys manylion yn ymwneud â materion busnes/ariannol unigolion heblaw'r Awdurdod (Opsiwn 2). | |